



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Mesurau cyson ar gyfer dysgu ôl-16 yng Nghymru

**Trosolwg** Yn fras, beth yw pwnc yr ymgynghoriad? Beth yw'r prif faterion dan sylw?

**Sut i ymateb** Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 1 Mai 2017. Gallwch ymateb ar e-bost neu drwy'r post.

Anfonwch eich ymateb i'r ymgynghoriad i [post16quality@wales.gsi.gov.uk](mailto:post16quality@wales.gsi.gov.uk), neu i'r cyfeiriad post isod.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

**Manylion Cysylltu** Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:  
Bethan Milton  
Llywodraeth Cymru  
Ty'r Afon  
Heol Bedwas  
Caerffili  
CF83 8WT  
e-bost: [post16quality@wales.gsi.gov.uk](mailto:post16quality@wales.gsi.gov.uk)  
Ffôn: 0300 025 3905

**Diogelu Data** Sut y byddwn yn defnyddio'r safbwyntiau a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod.

Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Beth yw'r prif faterion?

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu ei dull o fesur deilliannau rhaglenni dysgu ôl-16<sup>1</sup> a ddarperir mewn dosbarthiadau chweched dosbarth ysgolion a cholegau addysg bellach (AB). Defnyddir mesurau perfformiad mewn sawl ffordd; maent yn bwysig wrth werthuso effeithlonrwydd dysgu; maent yn rhan o'r sail dystiolaeth a ddefnyddir gan Estyn (Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) yn ystod arolygiadau neu waith arolygu thematig; maent yn helpu darparwyr dysgu i asesu eu perfformiad eu hunain a gweld lle gellid bod angen gwelliannau; ac maent yn helpu'r cyhoedd, yn enwedig dysgwyr, eu rhieni a'u gofawlyr, i wneud penderfyniadau, law yn llaw â ffactorau eraill, am y dewis gorau o ddarparwr dysgu a chws ac ymgysylltu â darparwyr ynghylch eu perfformiad. Nid y data perfformiad sy'n cael y gair olaf, ond mae'n fan cychwyn i nodi darparwyr, rhaglenni, adrannau neu grwpiau o ddysgwyr nad ydynt yn gwireddu eu potensial, a lle mae angen cefnogaeth i sicrhau gwelliannau.

Mae'r ymgynghoriad hwn am gael eich safbwyntiau ar y newidiadau arfaethedig i fesurau perfformiad dosbarthiadau chweched dosbarth ysgolion a cholegau AB.

Mae ein gwaith ar fesurau perfformiad ar gyfer dysgu ôl-16 wedi'u datblygu dros sawl blwyddyn ac mae'n parhau. Yn ystod yr un cyfnod, cynhaliwyd [Dyfodol Llwyddiannus](#), sef yr Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru, gan yr Athro Graham Donaldson, ac mae rhaglen diwygio'r cwricwlwm ar waith erbyn hyn mewn ymateb i argymhellion yr Athro Donaldson.

Mae *Dyfodol Llwyddiannus* yn ei gwneud yn glir y bydd y system yn y dyfodol yn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio asesiadau fel sail i well addysgu a dysgu. Bydd hyn yn golygu symud oddi wrth ddefnyddio gwybodaeth am berfformiad plant a phobl ifanc fesul ysgol at ddibenion atebolrwydd, a phwyslais newydd ar wneud asesiadau yn nodweddedd hanfodol ac annatod o ddysgu ac addysgu.

Yn y chweched dosbarth, yn draddodiadol nid yw'r ffocws ar ddeilliannau dysgwyr wedi bod mor gryf ag mewn addysg orfodol, felly rydym yn dechrau o bwynt lle nad ydym yn gwybod digon am yr hyn sy'n gweithio go iawn o ran deilliannau dysgwyr, yn hytrach nag o safbwynt cyfundrefnau rheoli perfformiad cymhleth. Mae'r bwriad i gyflwyno mesurau perfformiad newydd yn cynnig cyfle i fynd i'r afael a hyn, ac i gyd-fynd ag ysbryd diwygio'r cwricwlwm ysgol, rydym am sicrhau ein bod yn mesur y pethau iawn ac yn helpu ysgolion a cholegau i ganolbwyntio ar gyflawni'r deilliannau gorau posibl ar gyfer eu dysgwyr.

Gan gydnabod bod dysgu ôl-16 yn cael ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ac yn ddwyieithog mewn rhai lleoliadau, mae angen i ni ystyried sut mae addysg ôl-16 yn cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050<sup>2</sup>. Law yn llaw â'r mesurau deilliannau hyn, rydym yn datblygu

---

<sup>1</sup> Mae rhaglenni dysgu yn cynnwys 'pecyn' cydlynol o weithgareddau dysgu (cymwysterau) gyda diben a deiliant diffiniedig. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: <http://llyw.cymru/topics/educationandskills/learningproviders/post-16-planning-and-funding/?skip=1&lang=cy>

<sup>2</sup> Daeth yr ymgynghoriad ar Strategaeth y Gymraeg i ben ym mis Hydref 2016 a chyhoeddir y strategaeth derfynol yn yr haf: <https://ymgynghoriadau.llyw.cymru/ymgynghoriadau/strategaeth-y-gymraeg>

mesurau perfformiad hefyd a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i fesur cyfraniad addysg ôl-16 at alluogi dysgwyr i barhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, a gwerthuso perfformiad darparwyr o ran cynnig darpariaeth yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Yn y cyfamser, rydym yn cynnig mesur deilliannau dysgwyr beth bynnag fo'r cyfrwng dysgu ac asesu, a chyhoeddi dadansoddiad yn ôl y cyfrwng ble bynnag y bo hynny'n ddefnyddiol a'i bod yn bosibl gwneud hynny.

## **Diben yr ymgynghoriad hwn**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno'n gwelliannau arfaethedig i'r defnydd o ddata sy'n cyfrannu at system atebolrwydd ysgolion a cholegau. Fodd bynnag, dim ond man cychwyn yw data, ac mae angen edrych arno gyda ffactorau cyd-destunol eraill o ran hunanwerthuso a hunanwella.

Trwy wneud hyn byddwn yn helpu rhieni, dysgwyr Gweinidogion Cymru ac arolygwyr hefyd i ddeall ansawdd y ddarpariaeth drwy gyfuniad o:

- Data crynhoi sy'n rhoi blas ar berfformiad cyffredinol y darparwr;
- Data ychwanegol ar agweddau penodol o berfformiad y darparwr; bydd hyn yn cynnwys mathau penodol o raglenni/cymwysterau a grwpiau penodol o ddysgwyr (fel y rhai a fu'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, neu'r rhai o gefndiroedd difreintiedig).

## **Ble rydym ni nawr?**

Mae'r mesurau cyfredol ar gyfer deilliannau dysgwyr yn y sectorau AB a chweched dosbarth yn gwbl ar wahân. Er bod gennym system safonol ar gyfer cynllunio a chyllido rhaglenni dysgu ar draws y ddau sector, mae hyn yn golygu na allwn fesur canlyniadau'r rhaglenni hyn yn yr un ffordd.

- Ym maes AB, y prif fesur ar hyn o bryd yw 'llwyddiant gweithgaredd dysgu' sy'n seiliedig ar unrhyw weithgareddau dysgu sydd wedi dod i ben, ac felly'n cyfuno cyflawniadau a chyraeddiadau dysgwyr, ond heb ystyried sgoriau pwyntiau cymwysterau neu raddau.
- Mewn dosbarthiadau chweched dosbarth, mae'r 'trothwy Lefel 3' presennol yn seiliedig ar ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau'n unig; felly nid yw'n cynnwys cadw/cwblhau, ond mae'n rhoi rhywfaint o ystyriaeth i raddau. Mae'r prif fesur arall, sy'n seiliedig ar y pwyntiau a sgoriwyd fesul gradd a gafwyd, wedi'i seilio ar y garfan o ddisgyblion sy'n dysgu ym mis Ionawr bob blwyddyn. Yn 2015, ychwanegwyd dau fesur newydd at Setiau Data Craidd Cymru Gyfan (AWCDS)<sup>3</sup> ar gyfer ysgolion sydd â chweched dosbarth. Canrannau yw'r rhain o ddysgwyr sy'n cyflawni 3A\*-A a 3A\*-C mewn Safon Uwch (neu gyfwerth), ond nid yw'r rhain ar gael i'r cyhoedd.

---

<sup>3</sup> Mae'r setiau data Craidd Cymru Gyfan yn darparu dadansoddiadau i ysgolion awdurdodau lleol o gyfnodau allweddol, a chanlyniadau arholiadau allanol er mwyn gallu cymharu perfformiad drwy ddefnyddio ffactorau cyd-destunol amrywiol. Mae'r adroddiadau yn cefnogi proses hunanwerthuso ysgolion a fframwaith arolygu Estyn drwy ddarparu set ddata gyson ar gyfer ysgolion a thimau arolygu.

Cyhoeddir mesurau mewn gwahanol fformatau ac ar lefelau amrywiol o fanylder ar gyfer ysgolion a cholegau. Mae'r diffyg cysondeb hwn yn golygu na ellir mesur deilliannau ar gyfer colegau ac ysgolion yn yr un modd, hyd yn oed lle mae'r dysgwyr yn dilyn yr un rhaglenni dysgu mewn gwahanol leoliadau. Mae'n golygu hefyd na all dysgwyr wneud dewisiadau gwybodus sy'n ystyried data deilliannau am y darparwyr neu raglen ddysgu orau i ddiwallu eu hanghenion.

Credwn nad yw'r naill set o fesurau presennol na'r llall yn gwbl gynhwysfawr, a bod angen i ni ddatblygu dull newydd sy'n rhoi darlun mwy cyflawn i ni o ddeilliannau dysgwyr. Mae'r [canlyniadau Safon Uwch yn 2016](#) yn dystiolaeth bellach bod angen i ni roi mwy o ffocws ar y graddau y mae dysgwyr yn eu cyflawni, yn ogystal ag edrych ar faterion mwy cyffredinol yn ymwneud â chadw dysgwyr a'u cynnydd.

Mae angen ymreolaeth ar ysgolion a cholegau i benderfynu ar y ffordd orau o ddiwallu anghenion amrywiol eu dysgwyr. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwysu hyn gyda system sy'n dwyn darparwyr i gyfrif am ansawdd y cyrsiau y maent yn eu darparu; y cynnydd y mae eu dysgwyr yn ei wneud; y cymwysterau y maent yn eu cael; a'r cyrchfannau y maent yn eu cyrraedd.

Mae'r elfennau sy'n sbarduno newid yn cynnwys:

- Yr [Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru](#), a argymhellodd:
  - defnyddio'r cyflawniad Bagloriaeth Cymru fel y mesur allweddol o gyrhaeddiad
  - ystyried datblygu trothwy 'lefel 3 a mwy' er mwyn annog dyhead am raddau uwch;
  - dylai Estyn adrodd ar wahân ar gyfer ysgolion ar ganlyniadau mewn chweched dosbarth unwaith y bydd data cyson ar gael.
- Nod y [Fframwaith Cynllunio a Chyllido Ôl-16](#) yw cael gwell dealltwriaeth o'r adenillion y mae Llywodraeth Cymru yn eu cael am ei buddsoddiad yn y sector ôl-16 yng Nghymru a sicrhau bod dysgwyr yn dilyn rhaglen ddysgu sy'n arwain at gynnydd. I gyflawni hyn, mae'r rhaglen yn casglu gwybodaeth ar lefel rhaglen i lywio a dylanwadu ar ddarpariaeth yn y dyfodol. Amcan y broses yw tynnu sylw at raglenni sy'n tangyflawni a nodi meysydd blaenoriaeth mewn ymateb i'r galw am ddarpariaeth. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen data ar gyfer ysgolion a cholegau AB yn rheolaidd.
- Mae'r [Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Dysgwyr](#) yn rhoi disgwyliadau clir ar ddarparwyr i nodi disgyblion sy'n gadael ar ganol rhaglen (neu sydd mewn perygl o wneud hynny) ac wrth gadw mewn cysylltiad ag asiantaethau allanol i'w cefnogi/monitro.
- [Adroddiad Llysgennad Oxbridge](#), a oedd yn crynhoi canfyddiadau dadansoddi data ac ymgynghoriad â myfyrwyr, athrawon a rhanddeiliaid allweddol eraill, i nodi'r rhwystrau a allai atal dysgwyr Cymru rhag mynd yn eu blaenau i brifysgolion detholus. Nodwyd y prif broblemau fel codi safonau, hybu hunanhyder a rhannu arferion gorau i feithrin ein pobl ifanc mwyaf galluog a thalentog, ac annog dyhead am raddau uwch.
- Dangosodd canlyniadau Safon Uwch 2016 ddirywiad yn nifer y graddau a dyfarnwyd yn yr amrediadau A\*-A ac A\*-C. Mae Gweinidogion wedi gofyn i swyddogion ddatblygu **cynllun gwella Safon Uwch** ac mae tystiolaeth yn cael ei

chasglu ar hyn o bryd gan ysgolion, colegau, consortia addysg a rhanddeiliaid eraill i lywio datblygiad y cynllun. Rhagwelir y bydd y cynllun yn cynnwys ffocws cryfach ar fonitro a phennu targedau ar gyfer deilliannau Safon Uwch, ac mae hyn yn golygu ei bod yn bwysig iawn cael mesurau cadarn y mae pobl yn eu deall yn iawn, gan gynnwys y graddau sy'n cael eu cyflawni gan ddysgwyr, y gellir eu cymhwyso ledled pob lleoliad Safon Uwch <sup>4</sup>.

**C1.** Ydych chi'n cytuno bod angen newid y mesurau perfformiad cyfredol ar gyfer dosbarthiadau chweched dosbarth a cholegau AB? Eglurwch eich rhesymau.

**C2.** Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor gyffredinol o gael cyfres gyson o fesurau, lle'n bosibl, lle mae dysgwyr yn dilyn rhaglenni dysgu tebyg mewn gwahanol leoliadau. Os nad ydych chi'n cytuno, rhowch eich rhesymau.

## Mesurau arfaethedig

Rydym yn gwneud gwaith i ddatblygu cyfres newydd o fesurau sy'n rhoi darlun mwy cyflawn o ddeilliannau dysgu yn y sector ôl-16, ac sy'n gallu cymryd lle'r mesurau cyfredol.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda grwpiau o ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, colegau AB a gydag Estyn i ddatblygu'r mesurau arfaethedig, i helpu i sicrhau bod y dull yn cael ei ddeall yn iawn, yn addas i'r diben ac yn cael ei groesawu gan y sector. Mae hyn wedi cynnwys trafodaeth anffurfiol gyda grwpiau o randdeiliaid, ynghyd â sefydlu gweithgorau penodol. Bydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio ynghyd â chanlyniadau'r ymgynghoriad hwn i lywio datblygiad y mesurau.

Bydd y gwaith hwn gyda rhanddeiliaid yn parhau wrth i ni ddatblygu'r fethodoleg fanwl, treialu'r mesurau amrywiol a llunio adroddiadau enghreifftiol er mwyn i ysgolion a cholegau gael gweld sut y bydd eu data yn edrych.

Y gyfres fwriedig o fesurau yw:

**Cyflawniad dysgwyr** (sy'n dangos a arhosodd dysgwyr tan ddiwedd eu cyrsiau a chyflawni eu nodau o ran cymwysterau)

**Gwerth ychwanegol ôl-16** (sy'n dangos y cynnydd a wnaeth dysgwyr ar sail eu cyrhaeddiad blaenorol)

**Cyrchfannau** (sy'n dangos a wnaeth dysgwyr, ar ôl gadael y byd dysgu, fynd ymlaen yn llwyddiannus i ddysgu pellach neu gyflogaeth)

<sup>4</sup> Mae oddeutu 70% o gyrsiau safon uwch sy'n cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru yn cael eu darparu mewn dosbarthiadau chweched dosbarth, a 30% mewn colegau AB

**C3.** Ydych chi'n cytuno bod y mesurau uchod yn briodol? A oes unrhyw fesurau eraill y dylem eu hystyried?

Mae'r ymgynghoriad hwn yn manylu'n benodol ar y mesurau cyflawni arfaethedig, gan mai'r rhain sydd wedi'u datblygu'n fwyaf helaeth. Rydym wedi cynnwys manylion pellach a chwestiynau penodol am y mesurau cyflawni mewn atodiad technegol. Rydym am gael adborth hefyd ar ein dull cyffredinol a'r gyfres lawn o fesurau sy'n cael eu hystyried. Rydym yn sylweddoli mai dim ond sylwadau ar y cwestiynau mwy cyffredinol sydd wedi'u cynnwys ym mhrif gorff y papur ymgynghori y bydd rhai ymatebwyr am eu rhoi, ac rydym yn croesawu ymatebion ar y sail hon. Efallai mai'r rhai sy'n ymwneud â thrin a dadansoddi data fydd yn y sefyllfa orau i ymateb i'r cwestiynau yn yr atodiad technegol.

## Cyflawniadau dysgwyr

**Diffiniad:** Rhagwelwn y bydd y mesur hwn yn cynnwys:

- **Addysg gyffredinol**<sup>5</sup> cwblhau a chadw dysgwyr gydol y rhaglen dwy flynedd lawn, a chyflawni graddau A\*-A, A\*-C ac A\*-E ar gyfer Safon Uwch a chymwysterau cyfwerth
- **Galwedigaethol** cwblhau a chyflawni'r prif gymwysterau ar lefel 1, 2 a 3 a graddau ar lefel 3
- **Bagloriaeth Cymru** cyflawni

Bydd y mesurau newydd arfaethedig yn cyflwyno dull newydd mwy cyflawn sy'n ystyried cyfraddau cadw a chyraeddiadau dysgwyr, gan gynnwys graddau, lle'n briodol.

Y llynedd, cafodd mesurau ychwanegol, a oedd yn edrych ar gyflawni tair Safon Uwch neu gyfwerth, graddau A\*-A ac A\*-C, wedi'u cynnwys yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan ar gyfer hunanwerthuso mewn ysgolion ond nid ydynt wedi'u cyhoeddi eto mewn fforwm cyhoeddus. Rydym yn cynnig adeiladu ar y mesurau hyn ac rydym yn gweithio ar fanylion y fethodoleg ar hyn o bryd, gan gynnwys diffinio'r carfannau dysgwyr sydd wedi'u cynnwys ym mhob mesur.

Rydym yn cynnig mesur rhaglenni addysg cyffredinol (y rhai sy'n Safonau Uwch i gyd, neu sy'n gyfuniad o Safonau Uwch a chyrsgiau eraill fel gweithgareddau dysgu galwedigaethol lefel 3 a Bagloriaeth Cymru) ar wahân i raglenni cwbl alwedigaethol. Mae hyn oherwydd bod gan ddysgwyr sy'n dechrau at raglen Safon Uwch y dyhead fel arfer i gwblhau'r rhaglen ddwy flynedd (sy'n cynnwys sawl AS a Safon Uwch 2), a mynd ymlaen i addysg uwch gan amlaf. Mae'r rhan fwyaf o raglenni galwedigaethol yn seiliedig ar un prif gymhwyster a gyflawnir dros flwyddyn neu ddwy flynedd.

Yn dilyn argymhelliad yn yr [Adolygiad o Gymwysterau](#), mae'r gwaith o adrodd ar berfformiad ysgol yng Nghyfnod Allweddol 4 yn seiliedig bellach ar y disgyblion a oedd ym Mlwyddyn 11 yn hytrach nac ar gyfer disgyblion a oedd yn 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Mae'r mesurau perfformiad cyfredol ar gyfer ysgolion yng Nghyfnod Allweddol 5 yn seiliedig ar y dysgwyr hynny sy'n 17 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Mae'r mesurau ar gyfer AB ar gyfer pob oedran.

<sup>5</sup> Yn y papur hwn rydym yn defnyddio'r term 'raglenni addysg cyffredinol' i olygu rhaglenni AS/Safon Uwch a rhaglenni 'cymysg' sy'n cyfuno rhaglenni AS/Safon Uwch gyda chymwysterau lefel 3 eraill fel BTEC.



Cynigir diddymu'r cyfyngiad oedran hwn i gynnwys pob dysgwr (faint bynnag eu hoed) sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni addysg cyffredinol llawn amser<sup>6</sup>, felly, er enghraifft, bydd oedolion sy'n ddysgwyr mewn dosbarthiadau nos Safon Uwch yn cael eu heithrio o'r mesurau.

### Amserlen ar gyfer cyflwyno

- Bydd data ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16 yn cael ei ddefnyddio i fodelu'r mesurau newydd arfaethedig ar gyfer cyflawniadau a llwyddiannau **galwedigaethol** ac **addysg cyffredinol**. Rhagwelwn y bydd cyfnod pontio lle byddwn yn parhau i gyhoeddi'r mesurau cyffredol, tan i'r dull newydd gael ei sefydlu'n llawn.
- Cyflwynwyd y rhaglenni **Bagloriaeth Cymru** newydd yn hydref 2015 ac maent yn cael eu mabwysiadu'n raddol, er y bydd anghysondebau'n parhau dros y blynyddoedd nesaf o ran y niferoedd sy'n manteisio ar y cyfle mewn ysgolion a cholegau. Bydd y deilliannau Sylfaen ôl-16 (Lefel 1) a Chenedlaethol (Lefel 2) cyntaf ar gael ar gyfer 2015/16 a'r deilliannau Uwch (Lefel 3) cyntaf ar gyfer 2016/17. Gan fod y rhaglenni mor newydd a bod sawl problem yn gysylltiedig â'u rhoi ar waith, ni fydd deilliannau blwyddyn gyntaf pob rhaglen yn cael eu cyhoeddi ar lefel darparwyr unigol.

**C4.** Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiddymu'r cyfyngiad oedran cyffredol sydd ar waith ar gyfer dysgwyr chweched dosbarth (dysgwyr 17 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd) i gynnwys pob dysgwr sy'n cyflawni rhaglenni addysg cyffredinol lefel 3 llawn amser yn y chweched dosbarth ac mewn colegau?

**C5.** Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylem fesur deilliannau addysg cyffredinol lefel 3 dros gyfnod o ddwy flynedd?

Mae manylion pellach a chwestiynau ar elfennau technegol y mesurau cyflawni i'w gweld yn **Atodiad A**.

## Ychwanegu gwerth ôl-16

**Diffiniad:** Mesur o'r cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud rhwng gwahanol gyfnodau o ddysgu sy'n berthynol i ddysgu dysgwyr eraill.

Mae gwerth ychwanegol yn fesur pwysig gan ei fod yn cydnabod bod darparwyr addysg yn gallu helpu pob dysgwr i ddatblygu, beth bynnag yw'r graddau y maen nhw'n eu cyflawni. Mae'n gwneud hyn drwy ragweld pa ddeilliannau y mae dysgwyr yn debygol o'u cyflawni yn eu cyfnod dysgu nesaf (e.e. Safon Uwch neu gyfwerth) yn seiliedig ar eu cyrhaeddiad blaenorol (TGAU fel arfer), ac yna mesur y cynnydd y maent yn ei wneud drwy gymharu eu deilliannau disgwylidiedig a gwirioneddol.

Defnyddir cyrhaeddiad blaenorol i ragweld deilliannau yn y dyfodol gan mai dyna sydd â'r cysylltiad agosaf â deilliannau fel arfer, er enghraifft mae dysgwyr a wnaeth yn dda yn eu TGAU yn fwy tebygol o wneud yn dda yn eu Safonau Uwch. Mae hyn yn golygu y bydd darparwyr â nifer uwch o ddysgwyr mwy galluog yn perfformio'n

<sup>6</sup> Caiff dysgwyr rhan-amser eu cynnwys mewn ystadegau cyflawniad manylach ar gyfer pob cymhwyster.

well na'r rhai â nifer uwch o ddysgwyr llai galluog wrth ddefnyddio mesurau perfformiad traddodiadol (cyfran y dysgwyr sy'n cyflawni graddau A\*-A ac A\*-C (neu gyfwerth). Mae gwerth ychwanegol yn rhoi darlun mwy cyflawn o berfformiad darparwyr drwy fesur cynnydd dysgwyr o'u manau cychwyn go iawn.

Yng Nghymru, mae dull sefydledig ar gael eisoes ar gyfer gwerth ychwanegol yng Nghyfnod Allweddol 4 mewn ysgolion uwchradd, ond nid oes dull cyfwerth ar gyfer dysgu ôl-16. Mae rhai awdurdodau lleol a cholegau yn prynu gwahanol gynhyrchion masnachol, ond nid oes system y gellir ei defnyddio'n gyson ledled Cymru. Yn 2015, cynhaliwyd ymarfer cwmpasu ar opsiynau ar gyfer cyfrifo a chyflwyno mesur ar gyfer gwerth ychwanegol ôl-16. Dywedodd darparwyr addysg bod eu blaenoriaethau ar gyfer model a oedd:

- yn syml ac yn hawdd ei ddeall
- yn adrodd ar berfformiad pob pwnc a chymhwyster y maent yn eu darparu
- yn helpu i nodi eu cryfderau a'u gwendidau
- adrodd ar ddechrau tymor yr hydref.

Ar ôl ymarfer caffael, penodwyd FFT Education Ltd i ddatblygu, treialu a gweithredu model gwerth ychwanegol ôl-16 ar gyfer Cymru. Cynhelir y peilot yn ystod Gwanwyn 2017 gyda phob chweched dosbarth ysgolion a cholegau AB. Ar sail y cyfnod cwmpasu a'r ymgynghori â darparwyr hyd yma, bydd y model peilot:

- yn seiliedig ar gyrhaeddiad blaenorol yn unig, ond yn cynnwys dadansoddiad ar werth ychwanegol ar gyfer dysgwyr â gwahanol nodweddion;
- yn defnyddio Cyfnod Allweddol 4 fel y dangosydd cyrhaeddiad blaenorol;
- yn cyfuno data ffynhonnell o Gymru a Lloegr;
- yn cynnwys dysgwyr sy'n cyflawni cymwysterau gradd lefel 3;
- yn cynnwys dysgwyr 16-18 oed sy'n rhoi cynnig ar o leiaf un cymhwyster Safon Uwch neu gyfwerth (lle mae cysylltiad cadarn â chyrhaeddiad blaenorol);
- yn cynnwys y dysgwyr hynny sy'n cael eu cwmpasu (fel yr uchod) y gellir eu paru â'u data Cyfnod Allweddol 4 (cyrhaeddiad blaenorol);
- yn adrodd ar dri dangosydd gwerth ychwanegol:
  - Cyfanswm y pwyntiau fesul dysgwr
  - Cyfanswm y ceisiadau;
  - Gradd gyfartalog fesul cais;
- yn darparu dadansoddiad o ganlyniadau yn ôl nodweddion dysgwyr.

### **Amserlen ar gyfer cyflwyno**

Mae'r data'n cael ei ddadansoddi ar hyn o bryd a bydd pob coleg ac ysgol sydd â chweched dosbarth yn derbyn adroddiadau peilot gwerth ychwanegol ôl-16 yn ystod gwanwyn 2017. Byddwn yn cynnal cyfres o ymarferion ymgynghori i gasglu adborth ar y mesur drafft a fformatau adrodd.

Ar ôl y peilot a'r ymgynghoriad, rydym yn bwriadu rhoi'r mesur newydd ar waith erbyn dechrau blwyddyn academaidd 2017/18.

**C6.** Beth yw eich barn ar y dull arfaethedig o gyflwyno model cenedlaethol ar gyfer mesur gwerth ychwanegol? Os ydych chi'n ddarparwr dysgu ac eisoes yn defnyddio model gwerth ychwanegol, rhwch wybod i ni pa nodweddion sy'n arbennig o werthfawr ac y dylid eu cynnwys yn ein dull yn y dyfodol.

## Cyrchfannau

**Diffiniad:** Cyfran y dysgwyr sy'n symud ymlaen i ddysgu pellach (gan gynnwys addysg uwch) neu gyflogaeth.

Mae Gyrfa Cymru yn cynnal arolwg blynyddol o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol sy'n rhoi darlun o'u cyrchfannau cyntaf, ac rydym wedi gwneud rhywfaint o waith dadansoddi arbrolfol ar ddeilliannau addysgol ar gyfer dysgwyr Lefel 3. Fodd bynnag, nid oes dull systematig o edrych ar gyrchfannau mwy parhaol dysgwyr, na ffordd gadarn o nodi cynnydd i gyflogaeth.

Mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu rhaglen gysylltu data ar raddfa fawr yn Lloegr. Ei henw yw Longitudinal Education Outcomes Study (LEOS) ac mae'n paru cofnodion dysgwyr â data'r Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyflogaeth, enillion a budd-daliadau, gan roi darlun mwy cynhwysfawr o gyrchfannau dysgwyr na'r hyn sydd wedi bod yn bosibl yn y gorffennol.

Rydym wedi dod i gytundeb i Lywodraeth Cymru gael cymryd rhan yn LEOS, ac rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y DU i gytuno ar fanylion ein cyfranogiad. Er mwyn cael darlun cyflawn o gyrchfannau dysgwyr, gan gynnwys addysg yn ogystal â chyflogaeth, rydym hefyd yn sefydlu set ddata gyfatebol a ddiweddarir yn flynyddol a fydd yn dwyn ynghyd gofnodion ar gyfer ysgolion, addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith ac addysg uwch mewn un lle, gyda data cyflogaeth o LEOS yn darparu'r darn olaf yn y jig-so.

### Amserlen ar gyfer cyflwyno

Rydym yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU i gytuno ar amserlenni ar gyfer ymarfer paru peilot, sydd wedi'i drefnu dros dro ar gyfer mis Mawrth 2017.

Ar ôl ymarfer caffael, rydym wedi penodi London Economics i gynnal ymarfer paru data blynyddol, gan gysylltu data ysgolion, AB, addysg uwch ac arholiadau er mwyn gallu mesur cynnydd dysgwyr drwy'r system er mwyn gallu gwneud dadansoddiad ystadegol ac ymchwil i addysgu llwybrau dysgwyr. Bydd yr iteriad cyntaf o'r set ddata gyfatebol hon ar gael erbyn mis Mawrth 2017. Yn ystod yr hydref 2017, byddwn yn cynnal dadansoddiad arbrolfol o'r data cyfatebol ac yn dechrau diffinio mesur ar gyfer cyrchfannau cadarnhaol.

**C7.** Oes gennych chi unrhyw farn ar yr hyn y dylid eu diffinio fel 'cyrchfannau cadarnhaol' ar gyfer dysgwyr ôl-16?

### Cyhoeddi mesurau newydd

Pan fydd yr holl fesurau newydd yn eu lle, rydym yn cynnig datblygu porth ar-lein tebyg i [Fy Ysgol Leol](#), er mwyn i ddysgwyr, rhieni a gofalwyr, cyflogwyr a phartïon eraill â diddordeb allu cael gafael ar wybodaeth i lywio'r broses benderfynu. Y teitl

gwaith ar gyfer y porth hwn yw 'Dewisiadau Ôl-16'. Byddwn yn ymgynghori ar hyn yn ehangach gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys darparwyr, dysgwyr a rhieni maes o law.

Bydd data manylach yn cael ei ddarparu i ysgolion unigol a cholegau AB na'r hyn a fydd ar gael yn gyhoeddus. Bydd data a gyhoeddir yn defnyddio protocolau safonol i atal ffigurau sy'n ymwneud â niferoedd bach o ddysgwyr er mwyn cael gwared ar y risg o adnabod dysgwr unigol.

Byddwn yn ystyried hefyd sut y gall data meincnodi manwl fod ar gael i gonsortia, awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau, a sut y gellir ei gyflwyno'n glir i gynulleidfaoedd amrywiol. Bydd hyn yn cynnwys data ychwanegol ar elfennau penodol o berfformiad y darparwr; gan gynnwys mathau penodol o raglenni/cymwysterau a grwpiau penodol o ddysgwyr (fel y rhai a ddysgodd drwy gyfrwng y Gymraeg, neu'r rhai o gefndiroedd difreintiedig).

**C8.** Ydych chi'n cytuno y dylai data perfformiad fod ar gael yn eang i'r cyhoedd drwy borth ar-lein?

I ddatblygu mesurau newydd byddai angen newidiadau i'n prif waith adrodd hefyd drwy Ddatganiadau Ystadegol Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae data'n cael ei gyhoeddi'n flynyddol drwy [Ganlyniadau Arholiadau yng Nghymru](#) (ysgolion) a [Mesurau Canlyniadau Dysgwyr ar gyfer Addysg Bellach](#) sydd wedi llwyddo i gael dynodiad Ystadegau Gwladol, sy'n golygu eu bod yn cyrraedd y safonau uchaf ar gyfer ystadegau swyddogol o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus. Wrth i ni ddatblygu'r mesurau newydd, byddwn yn cyhoeddi data fel ystadegau arbrofol, a byddwn yn parhau i'w cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Y gobaith fyddai cael dynodiad Ystadegau Gwladol ar gyfer unrhyw gyfres ddata newydd dros amser.

Yn ogystal, rydym yn ystyried sut y gellir sicrhau bod data paru addysg a chyrchfannau (dienw) ar gael i'r gymuned academiaidd i lywio ymchwil ehangach.

## Amserlen

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r amserlen dros dro ar gyfer pob un o'r mesurau arfaethedig:

Mesur arfaethedig	Amserlen dros dro	Carreg filltir allweddol
Cyflawniad Dysgwyr	Haf 2017	Cyhoeddi tablau data arbrofol i bob coleg ac ysgol unigol sydd â chweched dosbarth ar sail data 2015/16 i ddangos deilliannau'n seiliedig ar y mesurau arfaethedig (ni fydd y rhain yn cael eu cyhoeddi).
	Gwanwyn 2018	Bydd data o flwyddyn academiaidd 2016/17 yn cael ei roi i bob coleg ac ysgol unigol sydd â chweched dosbarth i ddangos deilliannau'n

Mesur arfaethedig	Amserlen dros dro	Carreg filltir allweddol
		seiliedig ar y mesurau arfaethedig (ni fydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ar lefel darparwyr, ond byddwn yn ystyried eu cyhoeddi fel ystadegau arbrofol ar lefel Cymru gyfan).
	Gwanwyn 2019	Bydd data o flwyddyn academaidd 2017/18 yn cael ei gyhoeddi i bob coleg ac ysgol unigol sydd â chweched dosbarth a byddant yn cael eu cyhoeddi ar lefel Cymru gyfan a darparwyr.
Gwerth ychwanegol ôl-16	Gwanwyn 2017	Bydd pob coleg ac ysgol â chweched dosbarth yn derbyn adroddiadau peilot gwerth ychwanegol ôl-16.
	Gwanwyn/haf 2017	Ymarfer ymgynghori i gasglu adborth ar y mesur drafft a'r fformatau adrodd.
	Hydref 2017	Ar ôl y peilot a'r ymgynghoriad, rydym yn bwriadu rhoi'r mesur newydd ar waith ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd 2017/18.
Cyrchfannau	Hydref 2017	Dadansoddi arbrofol ar y data cyfatebol a dechrau diffinio mesur ar gyfer cyrchfannau cadarnhaol.

**Rhagwelwn y byddwn yn parhau i gyhoeddi'r mesurau cyfredol ar gyfer ysgolion a cholegau ochr yn ochr tan o leiaf 2017/18.**

Byddwn yn cyhoeddi cynllun pontio manylach law yn llaw â'r canlyniadau ymgynghori yn yr haf.

**C9.** Oes gennych chi unrhyw farn ar yr amserlen arfaethedig neu unrhyw faterion a allai effeithio ar ein gallu i'w chyflawni?

## Atodiad technegol: Cyflawniadau dysgwyr

Mae'r atodiad hwn yn canolbwyntio ar fesurau cyflawniadau arfaethedig. Mae'n diffinio'r garfan o ddysgwyr a fydd yn cael ei chynnwys ym mhob cam o'r dadansoddiad, ar sail yr egwyddor gyffredinol sy'n ystyried cyfraddau cadw a graddau dysgwyr. Bwriedir defnyddio dull cyson lle mae'r un rhaglenni neu raglenni tebyg yn cael eu darparu mewn ysgolion a cholegau.

Mae Tablau 1, 2 a 3 isod yn dangos sut y byddai'r tri mesur cyflawni cyffredinol yn cael eu diffinio. Bydd y rhain yn cael eu cyfrifo ar lefel dysgwyr ac yna'u hagredu ar lefel y darparwyr, yn hytrach nag ar gyfer gweithgareddau dysgu unigol (fel sy'n digwydd ar gyfer y mesur llwyddiant AB presennol). Hefyd, rydym yn cynnig cyhoeddi dadansoddiadau manylach o gyrhaeddiad ar gyfer pob cymhwyster (ar gyfer dysgwyr llawn a rhan-amser o bob oed), i roi syniad o ddeilliannau ar lefel pynciau.

**Tabl 1 Mesur cyflawniadau: Rhaglenni Addysg Gyffredinol Lefel 3**



<p>Pob dysgwr sydd wedi ymrestru ar dair Safon Uwch neu fwy neu gymwysterau cyfwerth.</p> <p>Mae ein dull arfaethedig yn caniatáu ar gyfer y ffaith bod llawer o ddysgwyr yn rhoi'r gorau i un cymhwyster yn ystod neu ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf o astudio Safon Uwch. Ni fydd hyn yn cael ei ystyried fel 'methu' gan y bydd y mesurau'n cael eu cyfrifo ar lefel y dysgwyr yn hytrach nag ar gyfer gweithgareddau dysgu unigol.</p>	<p>Canran y dysgwyr sy'n dysgu ar ôl wyth wythnos</p>	<p>Canran y "garfan wyth wythnos" a gwblhaodd eu rhaglen ddysgu (h.y. eu AS neu flwyddyn A2), p'run a ydynt wedi mynd ymlaen i gael cymwysterau ai peidio.</p>	<p>Canran y "garfan sy'n cwblhau" a ddychwelodd i gyflawni eu hail flwyddyn o astudio.</p>	<p>Canran y "garfan sy'n parhau" a enillodd dair Safon Uwch neu fwy neu gyfwerth gyda graddau A*-C, A*-C ac A*-E.</p>	<p>Canran y "garfan wyth wythnos" a enillodd dair Safon Uwch neu fwy neu gyfwerth gyda graddau A*-C, A*-C ac A*-E.</p>
	<p>"Carfan wyth wythnos"</p>	<p>"Carfan sy'n cwblhau"</p>	<p>"Carfan sy'n parhau"</p>		

DS. Mae gadael yn gynnar yn cyfrifo canran y dysgwyr a adawodd o fewn wyth wythnos gyntaf eu rhaglen.

**Tabl 2 Mesur cyflawni: Bagloriaeth Cymru**

<b>Carfan sy'n cychwyn</b>	<b>Gadael yn gynnar</b>	<b>Cyrhaeddiad Tystysgrif Her Sgiliau</b>	<b>Cyrhaeddiad Bagloriaeth Cymru</b>
Pob dysgwr sydd wedi ymrestru ar Fagloriaeth Cymru ôl-16 (Sylfaen, Cenedlaethol ac Uwch)..	Canran y dysgwyr sy'n dysgu ar ôl wyth wythnos.	Canran y "garfan wyth wythnos" a gyflawnodd y Dystysgrif Her Sgiliau.	Canran y "garfan wyth wythnos" a gyflawnodd y Fagloriaeth Cymru lawn.
	"Carfan wyth wythnos"		

DS. Mae gadael yn gynnar yn cyfrifo canran y dysgwyr a adawodd o fewn wyth wythnos gyntaf eu rhaglen.

**Tabl 3 Mesur cyflawni: Rhaglenni galwedigaethol**

<b>Carfan sy'n cychwyn</b>	<b>Gadael yn gynnar</b>	<b>Cwblhau</b>	<b>Cyrhaeddiad prif gymhwyster</b>	<b>Dadansoddiad graddau</b>
Pob dysgwr sydd wedi ymrestru ar raglenni galwedigaethol llawn amser (yn ôl lefel).	Canran y dysgwyr sy'n dysgu ar ôl wyth wythnos.	Canran y "garfan wyth wythnos" a gwblhaodd eu rhaglen ddysgu, p'run a ydynt wedi mynd ymlaen i gael cymwysterau ai peidio.	Canran y "garfan wyth wythnos" a gyflawnodd eu prif gymhwyster(au),	Dadansoddiad o'r graddau a gyflawnwyd ar gyfer y prif gymwysterau.
	"Carfan wyth wythnos"			

DS. Mae gadael yn gynnar yn cyfrifo canran y dysgwyr a adawodd o fewn wyth wythnos gyntaf eu rhaglen.

**C10.** Ydych chi'n cytuno y dylem, wth gyfrifo deilliannau rhaglenni addysg gyffredinol lefel 3, gynnwys cymwysterau cyfwerth â Safon Uwch/AS (cymwysterau o feintiau a gwerth pwyntiau cymharol fel Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru a BTEC)? Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gymwysterau penodol neu fathau o gymwysterau y dylid neu na ddylid eu trin fel rhai cyfwerth? Os felly, nodwch eich rhesymau.

**C11.** Ydych chi'n cytuno y byddai'n ddefnyddiol cyhoeddi dadansoddiadau o'r graddau sydd wedi'u cyflawni ar gyfer Safonau Uwch, i ddangos deilliannau ar gyfer pynciau unigol lle mae digon yn rhoi cynnig arnynt?

**C12.** A ddylem gynnwys deilliannau graddau ar gyfer rhaglenni galwedigaethol? A ddylai hyn fod ar lefel 3 yn unig?



**Ffurflen Ymateb  
i'r  
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yn berthnasol):

e-bost / ffôn:

Eich cyfeiriad:

**C1.** Ydych chi'n cytuno bod angen newid y mesurau perfformiad cyfredol ar gyfer dosbarthiadau chweched dosbarth a cholegau AB? Eglurwch eich rhesymau.

**C2.** Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor gyffredinol o gael cyfres gyson o fesurau, lle'n bosibl, lle mae dysgwyr yn dilyn rhaglenni dysgu tebyg mewn gwahanol leoliadau. Os nad ydych chi'n cytuno, rhwch eich rhesymau.

**C3.** Ydych chi'n cytuno bod y mesurau uchod yn briodol? A oes unrhyw fesurau eraill y dylem eu hystyried?

**C4.** Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiddymu'r cyfyngiad oedran cyfredol sydd ar waith ar gyfer dysgwyr chweched dosbarth (dysgwyr 17 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd) i gynnwys pob dysgwr sy'n cyflawni rhaglenni addysg cyffredinol lefel 3 llawn amser yn y chweched dosbarth ac mewn colegau?

**C5.** Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylem fesur deilliannau addysg cyffredinol lefel 3 dros gyfnod o ddwy flynedd?

**C6.** Beth yw eich barn ar y dull arfaethedig o gyflwyno model cenedlaethol ar gyfer mesur gwerth ychwanegol? Os ydych chi'n ddarparwr dysgu ac eisoes yn defnyddio model gwerth ychwanegol, rhowch wybod i ni pa nodweddion sy'n arbennig o werthfawr ac y dylid eu cynnwys yn ein dull yn y dyfodol.

**C7.** Oes gennych chi unrhyw farn ar yr hyn y dylid eu diffinio fel 'cyrchfannau cadarnhaol' ar gyfer dysgwyr ôl-16?

**C8.** Ydych chi'n cytuno y dylai data perfformiad fod ar gael yn eang i'r cyhoedd drwy borth ar-lein?

**C9.** Oes gennych chi unrhyw farn ar yr amserlen arfaethedig neu unrhyw faterion a allai effeithio ar ein gallu i'w chyflawni?

**C10.** Ydych chi'n cytuno y dylem, wth gyfrifo deilliannau rhaglenni addysg gyffredinol lefel 3, gynnwys cymwysterau cyfwerth â Safon Uwch/AS (cymwysterau o feintiau a gwerth pwyntiau cymharol fel Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru a BTEC)? Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gymwysterau penodol neu fathau o gymwysterau y dylid neu na ddylid eu trin fel rhai cyfwerth? Os felly, nodwch eich rhesymau.

**C11.** Ydych chi'n cytuno y byddai'n ddefnyddiol cyhoeddi dadansoddiadau o'r graddau sydd wedi'u cyflawni ar gyfer Safonau Uwch, i ddangos deilliannau ar gyfer pynciau unigol lle mae digon yn rhoi cynnig arnynt?

--

**C12.** A ddylem gynnwys deilliannau graddau ar gyfer rhaglenni galwedigaethol? A ddylai hyn fod ar lefel 3 yn unig?

--

**C13.** Rydym wedi gofyn nifer5 o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion penodol cysylltiedig nad ydynt wedi'u trafod yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi.

--

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau'n cael eu cyhoeddi, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os ydych chi am i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: